

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor	-	17eg Chwefror 2016	-	Rhifau Cofnod 112-125
Cyfarfod y Cyngor	-	16eg Mawrth 2016	-	Rhifau Cofnod 126-140
Cyfarfod Arbennig y Cyngor	-	16eg Mawrth 2016	-	Rhifau Cofnod 141-144
Pwyllgor Cynllunio	-	16eg Mawrth 2016	-	Rhifau Cofnod 57-60
Pwyllgor Cynllunio	-	6ed Ebrill 2016	-	Rhifau Cofnod 61-63

I Gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol	-	6ed Ebrill 2016	-	Rhifau Cofnod 97-105
---	---	-----------------	---	----------------------

3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – SWYDDOGION GORFODI

Croesawu Mr Tim Wynne Evans, Uwch Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ddinbych, i roddi diweddariad i'r Cynghorwyr ar weithgareddau gorfodi yn y Rhyl ac i ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

5. PWYLLGOR SAFONAU SIR DDINBYCH – CAIS AM ODDEFEB

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref yn hysbysu bod goddefeb wedi ei rhoi i Gynghorwyr Tref y Rhyl mewn perthynas â Phwyllgor y Rhyl yn ei Blodau.

6. GUNSMOKE COMMUNICATIONS

Derbyn rhaglen o ddigwyddiadau a drefnwyd ar gyfer y 12 mis nesaf (copi'n amgaeëdig) fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol, er gwybodaeth.

7. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MAWRTH 2016

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

8. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

11. ADNEWYDDU YSWIRIANT

Derbyn adroddiad cyfrinachol ar y cyd (copi'n amgaeëdig) gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid yn gofyn am awdurdod i roi estyniad blwyddyn i'r trefniadau yswiriant presennol am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

12. TIR AR FFORDD CEFNDY/FFORDDLAS, Y RHYL

Derbyn adroddiad cyfrinachol llafar Clerc y Dref.

13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU YR HEDDLU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manyion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

14. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.